



CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGPOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 18.09.20

Dyma ni wedi bod wythnos gyfan gyda phawb yn ôl bob dydd. Mae hi wedi bod yn fendigedig gweld pawb, a rhaid canmol y disgyblion oll am fod mor ddoeth a deallus yn y sefyllfa newydd yma y cawn ein hunain ynddi ar hyn o bryd. Ail adroddaf yr hyn a fynegais mewn e bost flaenorol i ddiolch i chithau fel rhieni am fod mor gefnogol a chyd weithredol i'r ysgol. Gwerthfawrogir hynny yn fawr, a gwn y gallwn ddibynnu ar hynny eto i'r dyfodol.

I ddilyn, ceir diweddariad ar rai o drefniadau newydd yr ysgol.

Here we are now at the end of the first full week when everyone has been present every day. It's been wonderful to see everyone, and we must praise the children for being so wise and sensible in this new situation that we find ourselves in at this time. I repeat the comments I made in a previous correspondence to thank you, as parents, for being so supportive and for working so collaboratively with the school. This is all greatly appreciated, and we know that we can depend on this again in the future.

To follow, is an update on some of the school's latest arrangements.

CYSYLLTU GYDA'R YSGOL YN Y BORE – CONTACTING SCHOOL IN THE MORNING.


Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar **ôl 8.15 a.m.** os ydych angen siarad gyda ni ar y ffôn i drafod absenoldeb eich plentyn ar y diwrnod.

*You are welcomed to contact the school any time **after 8.15 a.m.** if you need to speak to us on the phone regarding your child's absence on that day.*

CLWB BRECWAST AM DDIM – FREE BREAKFAST CLUB.

Mae'r nifer sy'n gallu mynychu'r Clwb hwn yn gyfyngedig i 30 o ddisgyblion, a rhaid cofrestru ar Schoolcomms. Os ydych wedi cofrestru eich plentyn/plant unrhyw bryd ac nad ydynt yn mynd i fod yn bresennol, mae'n HANFODOL eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted ag sydd bosib os gwelwch yn dda, fel y gellir rhyddhau y lleoedd gwag hynny i'r rhai sydd wedi methu cael lle yn y Clwb. Gall unrhyw un sydd wedi methu cael lle, ail ymweld â'r safwe rhag ofn bod yna lleoedd wedi dod yn wag. Nid yw unrhyw blentyn i ddod i'r Clwb Brecwast am Ddim heb i'r rhieni fod wedi ei gofrestru ef/hi ymlaen llaw.

The number that can attend the Free Breakfast Club has been limited to a maximum of 30 pupils, and these pupils must be registered beforehand on Schoolcomms. If you have registered your child/ren at any time but that you know they're not going to be present, it is ESSENTIAL that you inform us of this as soon as possible, so that the spaces can be freed up for those who have been unable to register. Anyone who has not been able to secure a place for their child, can re-visit the website to check if any spaces have become available. No child is to attend the Free Breakfast Club if he/she has not been registered beforehand.



EITEMAU O ADREF – ITEMS FROM HOME.

Am resymau iechyd a diogelwch yn y cyfnod anodd hwn, gofynnir i ddisgyblion BEIDIO dod ag eitemau efo nhw o adref e.e. i'w dangos yn y dosbarth. Anogir pawb i'w harddangos ar SeeSaw (C.S.- Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) neu Teams (C.All. 2 – Blwyddyn 3,4,5 &6) os y dymunant wneud hynny.

Ar y llaw arall, os yw eich plentyn yn dod a phecyn bwyd o adref ar gyfer cinio, a wnewch chi sicrhau bod yr offer angenrheidiol e.e. llwy ar gyfer eu pwddin, yn cael eu rhoi yn y bocs bwyd, gan na allwn fynd i'r gegin i gaffael offer o'r fath.

For health and safety reasons during this difficult time, pupils are asked NOT to bring items with them from home e.g. to show in the class. Everyone is encouraged to show them on SeeSaw (F.Ph- Reception, Years 1 & 2.) or Teams (K.S.2 –Years 3,4,5 &6) if they so wish.

On the other hand, if your child brings a packed lunch from home, would you please ensure that the required utensils e.g. spoon for their pudding, are placed in the box, as we cannot go into the kitchen to collect such items.

CYRRAEDD A GADAEI YR YSGOL – ARRIVING AT AND LEAVING THE SCHOOL.

Mae'r ysgol yn dechrau i ddisgyblion Blynnydoedd 3-6 am **8.50 a.m.** ac i ddisgyblion y Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 am **9 a.m.** Bydd yn dechrau i ddisgyblion y Meithrin, pan fyddant hwy'n cychwyn yma ddydd Llun, am **9.10 a.m.** Rydym oll yn ymwybodol o'r ffaith bod prydlondeb yn bwysig iawn, ond anogwn chi i beidio â chyrraedd yn rhy gynnar, rhag gorfod aros ar y buarth neu ym mlaen yr ysgol am gyfnod rhy hir.

*School commences for Years 3-6 pupils at **8.50 a.m.** and for Reception, Years 1 and 2 pupils at **9 a.m.** and at **9.10 a.m.** for the Nursery pupils when they start here next Monday. We are all very aware of the importance of punctuality, but we encourage you not to arrive too early to avoid having to stand on the yard or front path for too long.*

Ar ddiwedd y dydd, (**2.55 p.m.** i'r disgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a 2, a **3.05 p.m.** i ddisgyblion Blynnydoedd 3,4,5 a 6), byddai'n dda i ni pe baech yn ceisio sefyll tua'r un ardal/lle bob dydd er mwyn ei gwneud yn haws i ni wybod ble i chwilio am rieni disgyblion unigol wrth i ni eu rhyddhau i chi. Mae'r disgyblion hŷn yn fwy annibynnol wrth gwrs.

*At the end of the day, (**2.55 p.m.** for Reception, Years 1 and 2 pupils and **3.05 p.m.** for Years 3,4,5 & 6 pupils), it would be helpful to us if you could stand around the same place/space every day, in order to make it easier for us to know where to look for individual parents as we release the children to you. Older pupils are more independent of course.*

Fe'ch hatgoffir am y gatiâu a mynedfeydd/allanfeydd i'w defnyddio gan y dosbarthiadau. Os oes brodyr/chwirydd, deallwn yn iawn fod rhai o'r plant hŷn angen cerdded o gwmpas y llwybr sydd o amgylch yr adeilad er mwyn cwrdd â'u rhieni.

You are reminded of the entrances/exits and gates to be used by the various classes. If there are siblings, we fully understand that some of the older children need to walk on the path surrounding the school to get to their parents.

<u>DOSB/CLASS</u>	<u>GIÂT/ GATE</u>	<u>MYNEDFA/ALLANFA ENTRANCE/EXIT</u>	<u>AMSEROEDD/TIMES MAN CYFARFOD/ MEETING POINT</u>
Meithrin & Derbyn/Nursery & Reception (RHJ/LLD/SB)	Giât waelod/Bottom gate (Derbyn – Reception) Giât top gate- (Meithrin/Nursery)	Drws Babanod/Infants door (RHJ/SB) Drws Meithrin/Nursery door (LLD)	9 a.m. - 2.55p.m (Derbyn/Reception) 9.10 a.m - 11.30 a.m. (Meithrin/Nursery) (buarth yr ysgol – school yard)
Blwyddyn/Years 1 a 2 (ER/CT/CM)	Giât top gate	Prif fynedfa/Main entrance (ER). Drws allanol y dosbarth/Class external door (CT, CM)	9 a.m. - 2.55p.m. (llwybr blaen yr ysgol – pathway at front of school)
Blwyddyn/Years 3 a 4 (GJ/EH/DA/GG)	Giât waelod/Bottom gate (GJ&EH/DA) Giât top gate (GG)	Drws ochr/Side door (GJ & EH/DA) Prif fynedfa/Main entrance (GG)	8.50 a.m.-3 p.m. buarth- yard(GJ/EH&DA) llwybr blaen/front path GG
Blwyddyn/Years 5 a 6 (RHJ/GW/LF/LH)	Giât waelod/Bottom gate.	Drws top Door	8.50 a.m. - 3 p.m.

GWISG ADDYSG GORFFOROL – PHYSICAL EDUCATION KIT

Dyma'r drefn i'ch hatgoffa: *This is the order to remind you:*

Llun/Monday – Blwyddyn/Years 1 & 2

Mawrth/Tuesday – Blwyddyn/Years 3 & 4

Iau/Thursday – Meithrin a Derbyn/Nursery & Reception

Gwener/Friday – Bl/Yrs 5 & 6

Mae dydd Mercher yn ddiwrnod di wisg ysgol i bawb, a phob diwrnod (ar wahan i'r un lle mae Addysg Gorfforol yn digwydd i'r blynyddoedd hynny) yn rhai i wisgo gwisg ysgol.

Bwriadwn wneud cymaint o ddefnydd ag sydd bosib o'r cae, ac fel y bydd y tywydd yn mynd yn wlypach, mae'n debyg y bydd mwy o fwd yn ymddangos ar ddillad y disgyblion!

Ymddiheurwn am hyn ymlaen llaw, a phwysleisir y pwysigrwydd i'r disgyblion gael dillad glân bob dydd yn ystod y cyfnod hwn.

Wednesday is a non uniform day for everyone, and every other day (apart from those when the teaching years have their Physical Education sessions), are ones when the school uniform is to be worn. We will be making full use of the school field during this time, and as the weather becomes wetter, it is quite possible that more mud will appear on the children's clothes! We apologise for this beforehand, but we emphasise the importance of the children having a clean set of clothes on a daily basis during this time.



DOJOS DOSBARTH – CLASS DOJOS

Byddwn yn ail ddechrau ar yr arfer o gyflwyno dojos dosbarth o'r wythnos nesaf ymlaen. Bydd y disgyblion yn edrych ymlaen at hyn yn sicr.

We will be re-introducing the class dojos system from next week onwards. The pupils will undoubtedly look forward to this.

PARCIO – PARKING.

Yn anffodus, mae wedi dod i'n sylw yn barod fod yna rieni yn parcio ger mynedfeydd rhai o'r tai o gwmpas yr ysgol. Sylweddolir fod parcio yn peri anhwylustod mawr, ond gofynnir yn garedig ar i bawb barchu ein cymdogion er mwyn sicrhau perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Ni ddylai unrhyw un barcio ar fan aros y bws ar ddiwedd y dydd er mwyn galluogi i'r bws aros i gasglu'r disgyblion sy'n teithio arno, yn ddiogel.

Unfortunately, it's already been brought to our attention that parents are parking in the entrances to some of the houses on Bryn Coch Lane. We fully understand that parking can cause much frustration for everyone, but we kindly ask that everyone shows respect to our neighbours in order to ensure a good relationship between the school and its community.

No-one should park on the bus lay by at the end of the day in order to ensure sufficient room for the bus to wait there safely for the children who travel on it.

FFOLDERI/BAGIAU DARLLEN – READING FOLDERS/BAGS.

Gofynnir i chi anfon y ffolderi/bagiau darllen yn ôl i'r ysgol gyda'r plant **ddydd Llun** os gwelwch yn dda er mwyn iddynt ddod â llyfr darllen adref efo nhw ddydd lau. Ni fyddwn yn cofnodi yn y Cofnod Darllen yn ystod yr hanner tymor hwn.

*You are asked to send the reading bag/folder with the children on **Monday** please, so that they can bring a reading book home on Thursday. We will not be recording in the Reading Record during this half term.*

Ymddiheuraf bod y Cylchlythyr yn un go faith yr wythnos hon, ond ceisir rhannu cymaint o wybodaeth ag sydd yn bosib efo chi. Os yr hoffech fanylion pellach am unrhyw fater a nodir yn y Cylchlythyr, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol trwy e bost neu alwad ffôn.

I apologise for the length of the Newsletter this week, but we try to share as much information as possible with you. If you require further details regarding any matter noted in the Newsletter, please contact school via e mail or telephone call.

MWYNHEWCH Y PENWYTHNOS – HAVE A GOOD WEEK END!!